CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gerallt Jones
Nos Lun Mawrth 9fed 2020 am 7.30 y.h.

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Dewi Evans

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Gerallt Jones, Alun Owen, Gwynfor Roberts, Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol**: Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Edmund Rees Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Ionawr** cynigiwyd yn gywir gan GBJ gyda PW yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion**:-
   5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. CBSC – Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy – nid oedd ffigyrau ar gael ar gyfer y caeau chwarae. Ffigyrau a ddaeth i law ar gyfer y cyfleusterau cyhoeddus oedd cost 2018/19 CBSC £18,306.82 ar gost posib i'r Cyngor Cymuned £2,518.98 i £3,197.42 pe bawn yn cymryd y toiledau drosodd. Penderfynwyd na fyddwn yn gwneud dim ynglŷn ar fater.
   6.2. CBSC – Gwasanaethau cynaliadwy – angen llenwi ffurflen yn cadarnhau ymrwymiadau 2020/21. Penderfynwyd nad oeddem yn cytuno ar hun ac ni fyddwn yn anfon y ffurflen yn ôl.
7. **Talu Anfonebau:**
   7.1. Un Llais Cymru – cytunwyd ar ail ymaelodi a thalu'r anfoneb o **£51**. Cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu gyda siec rhif **100339**. (S133)
8. **Un Llais Cymru:**
   Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod yn Ninbych gan ein cynrychiolydd Edmund Rees –
   Siaradwr Gwadd Andrew Brown
   Pwnc: Loteri Genedlaethol Cronfa Gymunedol
   a) Lefelau grantiau ar gael £300 hyd £500,000
   b) Gofynion a disgwyliadau'r Loteri
   c) Y broses o wneud cais
   O'r Agenda
   1) Dim adroddiad o'r Pwyllgor Cenedlaethol:
   2) Talu costau i gynghorwyr yn achosi problemau re. Treth Incwm a budd daliadau
   3) Adroddiadau bioamrywiaeth, ychydig o ymateb gan gynghorau mor belled, disgwyl canllawiau gan Lywodraeth Cymru
   4) Cyfarfod nesaf ym Mhentrefoelas 29/04/20 siaradwr gwadd Prif Weithredwr Sir Conwy
9. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
10. **Unrhyw fater arall:**
    10.1. Dwr yn cronni ar y llwybr ger y gwaith carthffosiaeth. Disgwyl mwy o fanylion.
11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Ebrill 6ed 2019 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd_____ Dyddiad _____06/04/2020
Cadeirydd